



Hysbysiad Statudol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyma hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fod Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â phawb yr oedd rhaid iddo ymgynghori ag ef, yn cynnig sefydlu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Gynradd Cwmaman, Heol Glanaman, Cwmaman, Aberdâr, Rhondda Cynon Taf, CF44 6LA drwy gynnig 8 lle i ddisgyblion sydd o dan oedran ysgol statudol, sydd ag anghenion sylweddol amlwg. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael yma <https://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngghoriadysgolion>. Ynndo mae crynodeb o'r materion gafodd eu codi gan y personau a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn.

Y bwriad yw gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2025.

Mae 202 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 239 o leoedd yn yr ysgol. Yr hyn sy'n cael ei gynnig o ran nifer y lleoedd fydd ar gael wedi i'r cynllun gael ei weithredu yw, y bydd 239 ar gael o hyd.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion yma cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 14 Mawrth 2025.

Dylai unrhyw wrthwynebiadau gael eu hanfon at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Canolfan Menter y Cymoedd, Aberpennar CF45 4SN.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a fydd wedi dod i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (ac a fydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod:

Cyngor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad – 11 Chwefror 2025



Nodyn Esboniadol

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni o'r farn bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer y sawl sydd fwyaf agored i niwed o blith ein disgyblion, yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith ac ar lwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu (DCD) yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae gofyn i ni foderneiddio'r math yma o DCD a'i ddatblygu er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ymhellach ar gyfer y grwpiau hynny o ddisgyblion sy'n agored i niwed.
3. Mae gofyn ehangu'r ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn yr Awdurdod Lleol i ddiwallu anghenion y disgyblion Blynyddoedd Cynnar hynny sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n dod i'r amlwg.